**Atodiad B**

# Ymatebion Ymgynghoriad Statudol
# Ysgol Llanaelhaearn

**Ymatebion Ymgynghoriad Statudol**

Y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o'r 1 Medi 2020.

Ymatebion i’r Ymgynghoriad Statudol i gau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i’r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o’r 1 Medi 2020.

(Cyfnod Ymgynghori Statudol 16 Rhagfyr 2019 – 29 Ionawr 2020)

Derbyniwyd 8 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol

| | **Sylwadau** | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| **1.** | **Dymuniad i’r plant fynychu Ysgol Chwilog** | |
| 1.1 | Hoffwn weld plant yr ysgol yn bresennol gael dewis symud i ysgol Chwilog, a chludiant yn cael ei drefnu i’r plant hynny. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae rhesymau dilys dros enwi Ysgol Bro Plenydd fel yr Ysgol amgen, a manylir y rhain yn y ddogfen ymgynghori.<br><br>Er hyn, cydnabyddir fod plant Ysgol Llanaelhaearn eisoes yn mynychu Ysgol Chwilog ar gyfer sesiynau penodol, ac y byddai trosglwyddo i ysgol ble maent eisoes yn adnabod yr athrawon a disgyblion eraill yn debygol o leihau’r aflonyddwch a fyddai trosglwyddo i ysgol newydd yn ei gael ar y disgyblion presennol.<br><br>Am y rhesymau uchod, yn ddarostyngedig ar argaeledd llefydd yn Ysgol Chwilog, nid oes gan yr Adran Addysg wrthwynebiad i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn dderbyn cludiant i Ysgol Chwilog. |
| 1.2 | Rwyf yn hollol gefnogol i gais y rhieni i’r disgyblion fynychu Ysgol Chwilog ar ôl cau Ysgol Llanaelhaearn ac eu bod yn cael cludiant. A bydd plant sydd yn dechrau ysgol o Medi 2020 yn UNIG yn cael cludiant i’r ysgol ac nid y rhai a symudodd ysgol cyn hyn. | |
| 1.3 | Hoffwn i’r plant gael mynd i ysgol Gynradd Chwilog yn hytrach na y Ffôr a cael cludiant i’r perwyl yma. | |
| 1.4 | Rydym yn dymuno i XX fynd i Ysgol Chwilog o Fedi 2020 ac i drafnidiaeth gael ei threfnu i fynd â’r plant bob dydd. | |
| 1.5 | Hoffwn i XX gael eu lleoli yn Ysgol Chwilog ac fod trafnidiaeth gael eu darparu yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. | |
| 1.6 | Hoffwn i XX fynd i Ysgol Chwilog gan ei bod yn mynd yno yn barod gydag Ysgol Llanaelhaearn ac wedi ymgartrefu'n dda. Ni fyddem ni fel rhieni eisiau gwahanu'r plant. Hoffwn hefyd drafnidiaeth gan nad wyf yn gyrru. | |

| | | |
|---|---|---|
| 1.7 | Hoffwn i'm plant fynd i Chwilog gan y bydd fy mab XX yn mynd i Ysgol Glan y Môr yn 2021 ac wedi setlo ac nid wyf am iddo newid ysgolion yn ei flynyddoedd olaf. Mae fy mhlant wedi gwneud ffrindiau ac yn adnabod yr athrawon ac yn hapus iawn yn Chwilog. | |
| **2.** | **Crynodeb Estyn** | |
| 2.1 | Ym marn Estyn mae'r cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.2 | Gan fod y cynigiwr yn cynnig cau ysgol wledig mae'n nodi'n glir y rhesymau dros llunio'r cynnig a'r ystyriaethau gofalus y tu ôl i hyn. Mae hefyd yn nodi manteision eraill yn ogystal, fel yr effaith bositif o ran cost-effeithiolrwydd i'r awdurdod addysg a lleihau llefydd gweigion. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.3 | Mae'n nodi'r heriau allweddol mae'r ysgol yn ei hwynebu a sut maent am fynd i'r afael â nhw trwy gynnig gau'r ysgol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.4. | Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'n ystyried opsiynau eraill posib ac wedi rhoi rhesymau priodol ynghylch pam mae'r rhain wedi cael eu diystyru. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.5 | Mae'r cynnig yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn briodol. Mae'n cyfeirio at weithredu Polisi Iaith yr awdurdod lleol. Ymddengys na fyddai effaith negyddol ar ddarpariaeth y Gymraeg i'r disgyblion hyn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.6 | Cwblhaodd y cynigiwr asesiad defnyddiol o effaith cymunedol yr opsiynau. Dengys yr asesiad y bydd peth effaith negyddol o gau'r ysgol ar y gymuned gan fod yr ysgol yn ymwneud a'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau'r gymuned, megis Canolfan y Babell yn gyson. I geisio lliniaru'r effaith ar y gymuned nodir rai cyfleoedd posib i sicrhau fod cymuned Llanaelhaearn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn, lle'n briodol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.7 | Mae'r cynigiwr yn nodi bod gan adeilad Ysgol Bro Plenydd gyfleusterau cyfystyr ac Ysgol Llanaelhaearn i gynnig darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd | Nodir yr Awdurdod fel ymateb i'r sylwad am ddiffyg ystyriaeth i drefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ac anabledd, yn yr un modd a'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd, fe fyddai gofyn i Ysgol Bro Plenydd |

| | | |
|---|---|---|
| | bynnag, nid yw'n nodi'n ddigon clir yr effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac nid yw'r cynnig yn ystyried trefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ag anabledd. | adolygu Cynlluniau'r disgyblion gydag ADY ac yna mapio'r anghenion ar ddarpariaeth yr ysgol. Byddai'r Panel Cymedroli yn ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion gyda Datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) i sicrhau darpariaeth addas yn yr ysgol newydd. Byddai'r fforwm yn trafod CDU plant sydd yn derbyn mewnbwn y Tîm Integredig ADY a Chynhwysiad, gan sicrhau parhad gwasanaeth<br><br>Mewn perthnasedd i ystyriaethau hygyrchedd, mae'r ddwy safle wedi eu hasesu yn yr un categori. Pe byddai unigolyn ac anableddau yn gwneud cais mynediad neu drosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, y byddai'r Awdurdod yn ymdrin a'r cais fel y byddai i unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd. |
| 2.8 | Mae'r cynigiwr wedi nodi'r anfanteision o'r cynnig hwn, yn cynnwys adleoli disgyblion, diswyddo staff, diddymu'r corff llywodraethol, a chodiad yng nghostau cludiant. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.9 | Ar y cyfan mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith a chost y cynigion ar drefniadau teithio disgyblion ond nid ar hygyrchedd y ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mewn ymateb i'r sylwad, nodir yr Awdurdod pe byddai disgybl yn methu a defnyddio cludiant arferol, y byddai unrhyw gludiant ychwanegol yn cael ei drafod gan y Panel Cymedroli ar sail sefyllfaoedd unigol. |
| 2.10 | Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth bwrpasol i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion. Mae'n cyfeirio'n berthnasol at ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Bro Plenydd, a'u categorïau a band cymorth. Yn mesurau hyn i gyd mae Ysgol Bro Plenydd yn gryfach nac Ysgol Llanaelhaearn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.11 | Mae'n debygol y bydd yr opsiwn o gau Ysgol Llanaelhaearn yn datrys y sefyllfa fregus o ran diffyg trefniadau arweinyddiaeth wydn yn yr ysgol honno. Byddai gwireddu'r opsiwn hefyd yn debygol o wella profiadau cymdeithasol ac addysgu'r disgyblion drwy roi cyfleoedd i ddisgyblion | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |

| | | |
|---|---|---|
| | gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran. | |
| 2.12 | Noda'r cynigiwr hefyd yr amrywiaeth ehangach o gyfleusterau a fydd ar gael, a mynediad gwell at adnoddau a staffio. Mae'n cyfeirio y gall ysgolion gyda niferoedd uwch o blant gynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau |
| 2.13 | Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig ar gydraddoldeb ac yn honni'n rhesymol na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol. | Derbyniwyd sawl ymateb i'r ymgynghoriad (gan gynnwys yr ymgynghoriad a phlant) yn nodi dymuniad rhieni y disgyblion presennol i'w plant fynychu Ysgol Chwilog a derbyn cludiant i'r perwyl hynny.<br>Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae rhesymeg clir dros enwi Ysgol Bro Plenydd fel yr ysgol amgen.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Awdurdod o'r farn fod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi ennill profiadau cadarnhaol yn sgil trefniadau o gydweithio gydag Ysgol Chwilog, a chan fod y berthynas yn bodoli eisoes, rhaid ystyried unrhyw gyfle i leihau aflonyddwch i'r disgyblion presennol. Am y rheswm hyn, y mae'r Adran Addysg yn cefnogi cais am gludiant i Ysgol Chwilog ar gyfer y disgyblion a fyddai ar gofrestr Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020. |